Beth i'w ddisgwyl gan eich practis meddyg teulu?

HELPWCH NI
I'CH HELPU CHI

Mae meddygon teulu yn gontractwyr annibynnol ac felly gallant ddewis gweithredu'n wahanol. Ar draws Cymru, bydd amryw o wahanol ddewisiadau ar gael i chi.

Cyswllt cychwynnol

Cysylltwch â'ch practis meddyg teulu drwy wasanaeth digidol eich meddyg, drwy raglenni ar-lein (fel MyHealthOnline, E-Consult) neu dros y ffôn.

Bydd derbynnydd yn cofnodi eich cais ac yn sicrhau eich bod yn cael eich trin ar yr adeg gywir, yn y lle cywir a gan y gweithiwr proffesiynol cywir.

Brysbennu

Bydd cyfeiriwr y GIG yn gofyn cwestiynau ichi i sicrhau y gall y gweithiwr proffesiynol cywir o'r GIG ymdrin â'ch ymholiad. Gall fod yn feddyg teulu, fferyllydd, nyrs practis, ffisiotherapydd, therapydd galwedigaethol, optometrydd, deintydd, pediatrydd, ymwelydd iechyd neu weithiwr gofal cymdeithasol.

Ymgynghoriadau clinigol gyda'r clinigwr mwyaf priodol

Apwyntiad ffôn/Fideo

Gellir gwneud apwyntiad ffôn neu fideo gyda'r gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol. Bydd penderfyniad ar y cyd yn helpu i benderfynu a yw'n bosibl ymdrin â'r mater o bell neu a oes angen apwyntiad wyneb yn wyneb.

Apwyntiad Wyneb yn Wyneb

Os yw apwyntiad wyneb yn wyneb yn angenrheidiol yn glinigol, bydd y practis meddyg teulu yn gwneud trefniadau ichi fod yn bresennol.

Cyflwyno eich cais / anghenion → Derbyn penderfyniad clir → Apwyntiad dros y ffôn Neu Apwyntiad fideo Neu Apwyntiad wyneb yn wyneb Neu Cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol

DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

Os ydych chi'n cael poenau difrifol yn y frest, yn llewygu, yn cael anawsterau anadlu difrifol, yn profi gwendid ar un ochr y corff neu leferydd aneglur neu waedu difrifol, peidiwch â chysylltu â'ch practis meddyg teulu. **Ffoniwch 999 yn syth.**

GIG CYMRU NHS WALES